**Dyddiadau Ffenestri Datgan Diddordeb Ionawr 2025**

| **Cynllun** | **Crynodeb** | **Dyddiadau ffenestri** |
|---|---|---|
| Cynllun Cynllunio Creu Coetir | Mae'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn cynnig grantiau o rhwng £1000 a £5000 i ddatblygu cynlluniau i greu coetir newydd. Ar ôl i gynllun gael ei gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru mi fydd yn gymwys i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i blannu coed a ffensio (Grant Creu Coetir).<br><br>Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: https://llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir | Ar agor trwy'r flwyddyn (yn amodol ar gyllideb) |
| Cynllun Adfer Coetir (WRS) | Mae'r WRS yn darparu gwaith cyfalaf ar gyfer ail-stocio, ffensio a gweithgareddau cysylltiedig ar safleoedd lle ceir coed llarwydd a hyd at 50% o'r tir o dan rywogaethau heblaw am goed llarwydd. Oherwydd effaith Phytophthora ramorum ar bren coed llarwydd ifanc, ar gyfer y cyfnod ymgeisio hwn rydym wedi cynnwys opsiwn ichi ymgeisio am grant ar gyfer cwympo coed llarwydd ifanc (o dan 25 oed). Nid oes grant ar gael ar gyfer cwympo coed nad ydynt yn goed llarwydd.<br><br>Y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y ffenestr Datganiadau o Ddiddordeb hon yw £1 miliwn.<br><br>I fod yn gymwys i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb rhaid ichi allu cadw at y dyddiadau canlynol:<br><br>• cyflwyno eich Datganiad o Ddiddordeb gyda'r Drwydded Cwympo, Cais am Drwydded Cwympo gyda'r rhif neu'r SPHN rhwng 11 Tachwedd 2024 a 28 Chwefror 2025<br>• ymateb i ganlyniadau rowndiau dewis rheolaidd, roedd y gyntaf ar 9 Rhagfyr 2024<br>• cwblhau'r holl waith sefydlu a chyfalaf a chyflwyno hawliadau ar gyfer taliad erbyn 31 Mawrth 2026<br><br>Am fwy o wybodaeth:<br><br>https://www.llyw.cymru/cynllun-adfer-coetir-11-tachwedd-2024-i-28-chwefror-2025 | 11 Tachwedd 2024 i 28 Chwefror 2025 |
| Grantiau Bach - Amgylchedd | Mae'r cynllun Grantiau Bach – Amgylchedd (Dŵr) yn darparu cyllid o hyd at £7,500 i fusnesau fferm i gyflawni prosiectau gwaith cyfalaf amgylcheddol bach.<br><br>Bydd y rownd hon o Grantiau Bach – Amgylchedd yn canolbwyntio ar y Dirwedd a Phryfed Peillio.<br><br>Y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y ffenestr datgan diddordeb hon yw £1.5 miliwn.<br><br>Mwy o wybodaeth: https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-amgylchedd | 13 Ionawr 2025 i 21 Chwefror 2025 |

| | | |
|---|---|---|
| Grant Adfer Mawndiroedd | Mae tua £700,000 o gyllid ar gael i'w ddosbarthu ar ffurf grantiau o rhwng £10,000 - £250,000 i unigolion a sefydliadau ar gyfer adfer mawndiroedd. Mae'r Grant Adfer Mawndiroedd yn newydd yn yr ystyr ei fod yn cyfuno swyddogaethau'r grant Datblygu a'r grant Cyflawni blaenorol.<br><br>Roedd y ddau grant blaenorol yn llwyddiannus, ond mae'r grant newydd hwn yn cynnig mwy o hyblygrwydd i bartneriaid os ydyn nhw'n dewis mynd yn ddi-dor o'r cam cynllunio i'r cam cyflawni.<br><br>Rhaid i brosiectau llwyddiannus gael eu cwblhau erbyn 31/3/2026.<br><br>Mwy o wybodaeth:<br><br>https://naturalresources.wales/about-us/grants-and-funding/peatland-restoration-delivery-grant-2025/?lang=cy | 18 Rhagfyr 2024 i 18 Mawrth 2025 |